Cadwyn Bro

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Parch. Ddr. Andras Iago
Ffôn- 07778511672 *Ebost-* andrasiago@outlook.com
Tachwedd 2019 *Rhif 097*

O dro i dro fe fydda i'n clywed brawddeg neu ddarn o gerddoriaeth sy'n aros ar fy meddwl. Y darn o gerddoriaeth ar hyn o bryd yw'r gân 'Wil Tatws trwy'u Crwyn' gan Hogia'r Wyddfa - diolch i Taid am gyflwyno Mabon i'r clasur hwnnw! Ond y frawddeg yw hon - 'mae'n cymryd pentre i fagu plentyn' - 'it takes a village to raise a child'. Mi glywch chi bobl yn cyfeirio ati fel 'dihareb Affricanaidd', ond mae'n debyg fod gan sawl gwlad a diwylliant Affricanaidd ddiarhebion tebyg. Mewn brawddeg mae'n cyfleu syniad go werthfawr - bod hi'n cymryd amrywiaeth fawr o ddoniau, lleisiau, a chymeriadau i fagu plentyn.

Wrth ddarllen trwy lythyr Paul at y Corinthiaid yn y dyddiau diwethaf roedd geiriau pennod 12 yn sefyll allan i mi. Roedd gan yr eglwys yng Nghorinth broblemau o bob :nath - ac un o'r problemau oedd fod yr eglwys yn rhoi bri mawr ar rai pobl a rhai pethau ar draul eraill. Ond, meddai Paul, mae'n cymryd amrywiaeth o bobl, ac amrywiaeth o ddoniau, i fod yn eglwys Iesu Grist. Rydyn ni'n gorff, ac mae pob rhan o'r corff yn werthfawr yng ngolwg Duw. Mae gan bob un ei ddawn a'i allu, hyd yn oed y gwannaf un.

Mae bob amser yn werth i ni feddwl am y darluniau yma o natur eglwys – ac mae'r un hwn yn ein atgoffa ni o rhywbeth rhyfeddol. Er mwyn i bethau weithio fel dylai, rydyn ni angen y cymeriadau a'r doniau gwahanol sy'n ein heglwys. Yng Nghrist mae gan bob un ohonom ni fwy i'w roi, a mwy i'w wneud, nac y medrwn ni ei ddychmygu.

DIGWYDDIADUR

ASTUDIAETH FEIBLAIDD Y FRO – Bydd yr astudiaeth yn cael ei chynnal ar y 13eg a'r 27ain o Dachwedd yn Festri Capel Trefnant am 1.30 y.p. Croeso cynnes i bawb!

CWRS Y BEIBL – Byddwn 'Cwrs y Beibl' yn parhau yn festri capel y Pentre ar y 7fed a'r 21ain o fis Tachwedd, am 7.30 y.h.

CLWB IEUENCTID - Bydd **Clwb Ieuenctid** yn cael ei gynnal ar y 15fed a'r 29ain o Dachwedd, rhwng 7:00 a 8:30 y.h yn Festri y Dyffryn. Croeso i blant oed uwchradd – am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Andras.

CINIO'R OFALAETH
Cynhelir y cinio dydd Gwener Tachwedd 8fed am 12.00 yn ysgoldy Capel Mawr. Mi fydd hwn yn Ginio Nadolig a bydd y pris yn £12.00 tro yma. Croeso cynnes i bawb!

RHAGHYSBYS – GWASANAETH PLYGAIN ar y 5ed o Ionawr am 5 y.h. yng Nghapel y Pentre. Bydd y casgliad ar y noson yn mynd i gefnogi Gwaith Gofal Dydd a Helpu'n Gilydd yn Waengoleugoed.

TACHWEDD 23 10.00 - 1.30YP
MARCHNAD NADOLIG Y WAEN ER BUDD
GOFAL DYDD A HELPU'N GILYDD

Bydd y Farchnad Nadolig yn fwy eleni gyda rhai stondinau allanol, lluniaeth, côr ysgol lleol yn canu carolau, gweithgareddau i blant a Sion Corn gyda anrheg i bob plentyn. Bydd rhagor o Pwdinau Nadolig y Waen ar werth hefyd eleni wedi iddynt werthu allan yn fuan iawn yn 2018! Mae cardiau Nadolig hefyd wedi cyrraedd.

Rydym yn ddiolchgar iawn am bob cefnogaeth i'n hymdrechion i godi arian angenrheidiol ini gario mlaen i roi gofal a chefnogaeth i rai o fobl mwya bregus ein cymunedau, llawer ohonynt yn byw yn ardal Eglwysi Bro Dinbych.

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Tachwedd 3ydd
9.45 – Gweinidog – Oedfa Gymun
Dydd Sul, Tachwedd 10fed
10.00 – Mr Dewi Williams, Llannefydd
Dydd Llun, Tachwedd 11eg
Cinio Cynnil yn y Festri 12.00 – 1.00
Croeso cynnes i bawb
Dydd Sul, Tachwedd 24ain
2.00 - Gweinidog

Rydym yn meddwl am Mr Trefor Roberts sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Glan Clwyd ac yn gobeithio cael dod adref yn fuan.

CAPEL BRWCWS

Dydd Sul, Tachwedd 3ydd.
Ysgol Sul am 10.00
Mr Dilwyn Jones am 2.00
Dydd Sul, Tachwedd 10ed.
Ysgol Sul am 10.00
Oedfa Gymun yng Nghapel y Fron am 5.30 - Parch. Andras Iago.
Dydd Sul, Tachwedd 17eg.
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Eric Greene am 2.00
Nos Fercher, Tachwedd 20fed
Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws am 7.00
Hanes Taith Erfyl a Carys Williams i Ganada.
Dydd Sul, Tachwedd 24ain.
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Nesta M. Davies am 2.00

CAPEL Y DYFFRYN

Dydd Sul, Tachwedd 3ydd am 9.45 yb
Parch Nesta Davies
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Emyn a Darllen - Gwilym
Organ - Glenys
Blodau - Mary
Dydd Sul, Tachwedd 10fed am 10.45 yb
Gwasanaeth Sul y Cofio yn Eglwys Llandyrnog
Nos Lun, Tachwedd 11eg am 7.00 y.h
Y Gymdeithas - Gyrfa Chwilod **a Stondin y Goeden Nadolig**
Dydd Sul, Tachwedd 17eg am 9.45 yb
Parch Andras Iago
Gwasanaeth ac Ysgol Sul y Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Emyn a Darllen - Hywel
Emyn a Darllen Plant - Alys/Leah
Organ - Ann
Blodau - Bethan
Dydd Sul, Tachwedd 24ain am 9.45 yb
Trefniant Lleol - Gwasanaeth ac Ysgol Sul y Plant
Organ - Alaw
Blodau - Veronica
Nos Lun, Tachwedd 25ain am 7.00 yh
Y Gymdeithas gyda Alun Williams, Trefnant.

CYNHELIR BORE GOFFI TUAG AT Y GAPEL
BORE SADWRN, TACHWEDD 23ain AM 10 yb
YN YR YSTAFELL COCO.

GELLIFOR

Dydd Sul, Tachwedd 3ydd
11.00 – Parch Nesta Davies
Llywydd – Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – John
Offeryn - Richard
Blodau - Idris

Dydd Sul, Tachwedd 10fed
Sul y Cofio - Gweler Cadwyn Bro

Nos Fawrth, Tachwedd 12fed
7.00 – Gymdeithas – Mari Plas-yn-Rhos
Paned – Hâf a Teleri

Dydd Sul, Tachwedd 17eg
11.00 – Gweinidog - Cymun
Llywydd – Glen
Gwasanaeth Dechreuol – Plas-yn-Rhos
Offeryn – Nia
Blodau - Nia

Dydd Sul, Tachwedd 24ain
9.45 – Trefniant Ni
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Elsbeth
Offeryn – Alaw
Blodau - Nia

Y FRON

Llywydd y mis – Wendy Ll. Jones

Dydd Sul, Tachwedd 3ydd
10.00 – Fron – Mr. Dilwyn Jones
5.30 – Capel Mawr – Mr Dilwyn Jones
Dydd Sul, Tachwedd 10fed
****Sul y Cofio - Dim oedfa foreol**
5.30pm – Y Fron – Y Bugail. Gweinyddir Cymun yn yr oedfa hon.
Dydd Sul, Tachwedd 17eg
10.00 – Capel Mawr – Parch Eric Greene, Bala
5.30 – Fron – Parch Eric Greene, Bala
Dydd Sul, Tachwedd 24ain
10.00 – Capel Mawr – Parch Nesta Davies
5.30 – Fron - Parch Nesta Davies

SYLWCH ETO Y MIS YMA AR Y NEWIDIADAU YN NHREFN Y SULIAU

Organyddion – Iona Edwards, Eiri Jones
Casglyddion – Mr John Geraint Jones a Mr Aelwyn Lloyd
Paratoi Llestri'r Cymun – Mrs Gaynor Prew a Mrs Carys Jones

Croeshawu:
3ydd – Richard Snelson
10fed – Erfyl Williams
17eg – Dilys Davies
24ain – Gwyerfai Jones
Rhoddwyr y Blodau - yn gyfrifol Mrs Gwenda Owens
3ydd – Er cof am Gruff Richards
10fed – Mrs Gwenda Owens
17eg – Dilys Davies
24ain - Mrs Eiri Jones
Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws
Cynhelir ein cyfarfod nos Fercher Tachwedd 20fed am 7 o'r gloch ac mi fydd Carys ac Erfyl Williams yn rhoi hanes eu hymweliad a Chanada. Y mae croeso il'r "BRODYR i'r cyfarfod yma.

Yr ydym fel Eglwys yn Cydymdeimlo gyda Mrs Megan Williams, Groeswen yn ei phrofedigaeth. Y mae Megan wedi colli ei merch Mona. Yr oedd Mona yn un o blant yr Eglwys ond wedi cartrefu yn Llandrillo ger Corwen ers llawer blwyddyn.

Y mae taflenni ar gyfer llenwi bocsus esgidiau, trwy elusen T4U, wedi cyrraedd ac ar gael yn y cyntedd. Os nad ydych awydd llenwi bocs eich hunain, y mae cyfle i chi roi cyfraniad bach mewn bocs yn y cyntedd. Mae rhestr o'r hyn medrwch roi ar y daflen.

Y CAPEL MAWR A SEION

DALIER SYLW

**Cofiwch pan fo'r Gweinidog gyda ni yn y bore - yn Y Capel Mawr, Y Brwcws neu'r Fron - bydd yr oedfa am 11am

Dydd Sul, Tachwedd 3
10am - Y Fron – Y Parch. Mr Dilwyn Jones
5.30pm - Y Capel Mawr – Mr Dilwyn Jones

Dydd Sul, Tachwedd 10
****Sul Y Cofio - Dim oedfa foreol**
5.30pm – Y Fron – Y Bugail. Gweinyddir Cymun yn yr oedfa hon..

Dydd Llun, Tachwedd 11
1.30pm – Cyfarfod Gweddi Cenhadol

Dydd Mawrth, Tachwedd 12
1.30pm. – Yr Aelwyd

Dydd Sul, Tachwedd 17
10am – Y Capel Mawr – Y Parch. Eric Greene, Y Bala
5.30pm – Y Fron – Y Parch. Eric Greene, Y Bala

Dydd Mawrth, Tachwedd 19
1.30pm. – Yr Aelwyd. Sgwrs gan Mr Medwyn Jones ar hanes Capel Pendref

Dydd Sul, Tachwedd 24
10am – Y Capel Mawr - Y Parch. Nesta Davies
5.30pm – Y Fron – Y Parch. Nesta Davies

Llywydd Y Mis: – Mr Ifor John Jones
Casglyddion/ Wrth y Drws:- Gwirfoddolwyr o'r gynulleidfa
Organydd/ Cyfeilydd
Tachwedd 3 - Mrs Catrin Warren
Tachwedd 17 - Mrs Dorothy Rogers
Tachwedd 24– Mrs Catrin Warren
Blodau
Tachwedd 17 - Mrs Ann Lyall
Tachwedd 24 - Mrs Phyllis Lloyd
Llety'r Pregethwyr:-
Tachwedd 17 – 21 Bryn Teg
Tachwedd 24 - Y Fron

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â'r canlynol yn eu profedigaerthau:-

Mrs Lilian Jones, a gollodd chwaer
Mrs Helen Owen a gollodd frawd
Mrs Sian Eifion Jones a gollodd ei thad
Mr Steffan Jones a gollodd ei daid
Meddyliwn amdanynt yn ein gweddïau.

Yr Aelwyd

Dorothy Rogers ddechreuodd gyfarfod mis Hydref drwy ddarllen gweddi i'r Hydref gan Gareth Maelor. Buom yn meddwl am y rhai sydd ddim yn dda, ac am Helen Owen wedi colli brawd a Dorothy Rogers a Kitty Williams wedi colli brawd yng nghyfraith.

Croesawyd ein gŵr gwadd gan Helena Williams. Roedd Gwilym Davies wedi dod i siarad am ei waith coed, a daeth a llawer iawn o'i waith i ddangos i ni.Roedd wedi bod a llawer o ddiddordeb mewn gweithio gyda pren ers yn blentyn gyda'i daid a'i ewythr yn gwneud y gwaith. Llwyddodd i brynu peiriant turnio, ac mae'n teithio i Shotton bob wythnos i glwb turnio lle mae'n dysgu mwy am y grefft. Mae'n gweithio gyda gwahanol goed fel ywen, onnen, masarnen a llawer mwy. Soniodd am y pren bubinga sy'n ddrud iawn- math o rosewood Affricanaidd. Mae wedi gwneud amrywiaeth o bethau, pethau diddorol fel quaich sy'n gwpan gyda dwy handlen ddefnyddir yn yr Alban ar achhlysuron arbennig. Hefyd pob math o ffrwythau, dysglau,platiau teganau a llawer mwy. Y cyfan yn werth eu gweld. Mae'n fedrus iawn ac wedi meistroli ei grefft ac yn amlwg yn cael llawer o bleser yn creu'r trysorau hyn.

Diolchwyd iddo gan Mair ac i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned.

LLANRHAEADR, PRION A'R GLYN

Dydd Sul, Tachwedd 3ydd
Dalier Sylw - 3.30yp - Pentre - Gweinidog, Gwasanaeth Teuluol, Paned a Chacen i ddilyn
Dydd Sul, Tachwedd 10fed
9.45 - Prion - Mr Tom Williams, Dinbych
Dydd Sul, Tachwedd 17eg
9.45 - Pentre - Parch Dafydd Rees Roberts
Dydd Sul, Tachwedd 24ain
9.45 – Prion - Gweinidog a Gwasanaeth Cymun

CYDYMDEIMLO - Cydymdeimlwn â Brynle a Nesta Pont y Bedol, Brynle wedi colli ei chwaer Beryl yn Doncaster, ein cofion atoch.
CYMDEITHAS - Cawsom noson ardderchog yng nghwmni Mr Glyn Williams, Porth y Gêst, gyda'i hanesion diddorol a digon o hiwmor, ac ambell i gân. Diolch i'r merched fu'n paratoi paned a chacen i bawb, a diolch i'n ffrindiau o'r Fro am ymuno gyda ni, roeddem yn falch iawn o gael eich cwmni
COFION - at Mr John Hughes sydd wedi cael anffawd a wedi torri ei fraich, ein cofion ato.

YSGOL SUL - Cawsom gyflwyniad trawiadol gan y plant a'r bobl ifanc unwaith eto eleni yn eu Gwasanaeth Diolchgarwch. Olew palmwydd oedd eu thema. Cyflwynwyd gwbodaeth pwysig am ddefnydd olew palmwydd a'r effeithiau negyddol sy'n codi yn sgîl ei ffermio yn Indonesia a Malaysia, mae miloedd o anifeiliaid gwyllt yn marw yn flynyddol yn ogystal a chreu llygredd i'r amgylchedd. Codwyd ymwybyddaieth am ddefnydd olew palmwydd sydd mewn 50% o holl gynnyrch yr archfarchnadoedd.
Roeddynt yn annog anfon rhodd ariannol tuag at WWF World Wide Fund for Nature, (sefydliad ar gyfer gwarchod a diogelu anifeiliaid gwyllt) a chasglu rhoddion o fwyd anifeiliaid anwes i'r banc bwyd lleol. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi.

Rydym yn gwerthfawrogi'ch cyfraniad i'r Capel yn fawr – a diolch arbennig i'r rhieni am eich hyfforddi.
Ar derfyn y gwasanaeth, cyflwynwyd tystysgrifau Arholiad Llafar i'r plant am gymryd rhan yn y Picnic yn y Parc ym mis Mai – Llongyfarchiadau i Leah, Megan, Awel, Alaw, Elain, Lois, Tirion, Rhian, Sioned, a Lliwen. Stori Samson oedd y thema, a chafodd pawb gyfle i gymryd rhan yn y chwareon a gemau cryfder (o dan ofal ein arweinwyr ifanc Lisa, Gwen a Rhian, rydym yn ddiolchgar iddyn nhw am eu cymorth ac yn gwerthfawrogi eu gwaith).
Cafodd pawb hwyl yn gwneud y gwaith crefft – ail greu gwyneb a gwallt Samson yn defnyddio cress! Llawer o ddiolch i bawb am ddod, a diolch arbennig i Anti Ruth a Anti Eirian am drefnu.
Cytunwyd bod angen llawer mwy o ddyddiau ar y cyd gyda ysgol Sul eraill fel hyn.
Hefyd, diolch i Phil a Richard Isgoed, am y rhodd o flodau unwaith eto. Rydym yn gwerthfawrogi eu caredigrwydd o flodau bob blwyddyn i addurno'r Capel.

Y GLYN

Dydd Sul Tachwedd 17eg,2019 am 2 o'r gloch gyda'r Parch Andras Iago yn gwasanaethu.

TREFNANT

Llywydd y Mis : BRYN ROBERTS

Dydd Sul, Tachwedd 3ydd :
10.00 - Parch. Huw Dylan 11.00 YSO
3.00 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Rhiannon Owens

Dydd Sul Tachwedd 10fed
9.45 - Gweinidog 11.00. YSO
3 .00 - Gweinidog
Blodau. : Rhiannon Owens

Dydd Sul Tachwedd 17eg
10.00 - Parch Tudur Rowlands 11.00. YSO
3.00 - Parch Tudur Rowlands
Blodau. : Glynwen Davies

Dydd Sul Tachwedd 24ain
10.00 - Parch Glyn Thomas gyda phaned i ddilyn
3.00 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Glynwen Davies

DOSBARTH GWEITHGAREDDAU

Mae'r cwmni prynhawniau Llun yn ddiwyd yn llenwi Bocsys Nadolig ar gyfer plant mewn angen yn ogystal â chreu deunydd i'w gwerthu yn eu Ffair Nadolig blynyddol. Cynhelir hwn eleni ar fore Sadwrn, Tachwedd 30ain yn y Neuadd a bydd yr elw eleni i'w rannu rhwng Hosbis Sant Cyndern a'r Capel.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL

Cynhelir Eisteddfod y Tai ar Nos Wener, Tachwedd 22ain, yn y Capel. Mae'r rhestr testunau ar gael erbyn hyn ac anogwn pawb ohonoch i fod yn rhan o'r noson er sicrhau noson gymdeithasol, lwyddiannus.

CYMORTH CRISTNOGOL A'R ŴYL DDIOLCHGARWCH

Diolch i bawb wnaeth gymryd rhan yng ngwasanaethau'r Ŵyl ac i bawb wnaeth gyfrannu tuag at y Swper – gwnaed casgliad o £550 tuag at ein hymdrech blynyddol tuag at Cymorth Cristnogol.

COFION a DYMUNIADAU GORAU

Yn arbennig i Betty Griffiths sydd ar hyn o bryd yn treulio peth amser yn Hosbis Dewi Sant, Llandudno. Hyderwn y byddwch yn ôl adre yn fuan Betty. Cofion at bawb arall sydd yn methu'r gwasanaethau ar hyn o bryd.

Newyddion rhifyn Rhagfyr o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Tachwedd 15fed
e-bost : meinididdos13@gmail.com
neu: 01745890417